**Experienced Fundraiser, part-time employee or freelance contract**

Sinfonia Cymru occupies a unique space in the music sector. We are an 'under 30s' orchestra, dedicated to supporting the early careers of outstanding young professional musicians. Through this, we provide exceptional-quality musical experiences for audiences across Wales and beyond.

Sometimes we're an orchestra in the traditional sense – ranging from string ensemble to full symphony scale; at other times, we work with smaller groups of players to provide intimate performances in a variety of styles. Our core work includes chamber orchestral programmes, chamber music concerts, cutting edge contemporary music, cross-genre projects, and projects for and with schools.

Unafraid to challenge the status quo, we give musicians the opportunity to cultivate a wide range of skills and we put our players at the heart of our creative programming. Today, musicians need a much wider skills-set and a more open approach to music-making than previous generations and we help our players develop this. We aim to nurture classically-trained musicians who are exceptionally talented, artistically curious, challenging, open and engaging, and who will become role models for other young players.

Notable recent programme highlights include two BBC Radio 3 broadcasts, a concert tour of Wales with Sheku Kanneh-Mason, a performance of Tosca in Abu Dhabi with Bryn Terfel, a tour and recording with jazz pianist, Gwilym Simcock and soul/funk singer Kizzy Crawford, and a tour with world music band, Kabantu.

**The role**

Fundraising is an increasingly important part of our business model. To continue to deliver our current level of activity, we need to raise £87,000 annually, with targets due to increase steadily over the next few years. The current target is budgeted at £6,000 from Friends and Patrons; £6,000 from donations and a new targeted individual giving scheme; and £75,000 from Trusts and Foundations. Over the last two years we have focussed on extending the timeline for fundraising with the aim of increasing the number of multi-year arrangements, particularly from Trusts and Foundations. This strategy has been successful, with a two-year commitment from the Foyle Foundation, and three-year arrangements with Colwinston and Garfield Weston. Alongside these key relationships, we have achieved a steady flow of smaller, single grants, which are equally important to our fundraising mix.

This has been achieved mainly through the Chief Executive alongside agency support. We believe the time is now right to have a dedicated fundraiser within the team, as a freelancer or part-time employee. We anticipate a contract of between 2 and 3 days per week, based on a full-time equivalent salary of circa £30,000.

**The person**

The ideal person will be someone who has extensive experience of fundraising, with particular expertise in creating proposals for Trusts and Foundations; someone who can hit the ground running and create persuasive applications that accurately reflect the exciting work that we create. Experience of other areas of fundraising would also be useful. Well-honed written presentational skills are essential and, ideally, you will also be familiar with, and understand, the classical music sector. The ability to speak Welsh would be useful but is not an essential requirement for this role.

**Outline job description**

General

- Engage with the Sinfonia Team to fully understand our work and the value it has on musicians, audiences and participants
- Keep in regular contact with the Chief Executive with updates on progress, to discuss and develop ideas, and for final approval on major proposals

Trusts and Foundations

- Research a target list of those which best match Sinfonia Cymru's mission and programme of activities
- Create persuasive proposals for funding from a range of sources including those who may fund on a multi-year basis, as well as those who may give one-off smaller grants
- Keep a detailed track of research lists, enquiries, proposals and outcomes, in a format that can be easily shared (preferably, Airtable). Use this to provide simple reports to show progress against targets
- Complete external reports in a timely manner, as required by funders
- Provide the Sinfonia Cymru team with any funding requirements, such as use of logos, acknowledgment etc.

Individuals

- Develop an effective system for tracking individual giving and for notifying donors when renewals are due
- Create a communications programme for staying in touch with individual donors
- Work with volunteer consultants to bring to fruition a series of events to develop a syndicate of high net worth individuals to support Sinfonia Cymru going forward

Business

- Create ideas and proposals for developing business sponsorship where appropriate

**Sinfonia Cymru team**

The current team comprises: Chief Executive, General Manager (p/t, due to go on maternity leave), Orchestra Manager, Marketing Assistant, Freelance Marketing Consultant.

**How to apply**

Applications should include an up to date CV and a letter of application of no more than 4 pages of A4. In this covering letter, please tell us about your relevant skills and experience,

what you think you would bring to the Sinfonia Cymru team, and how you would help us to meet our fundraising targets over the next few years. Please state whether you are interested in a part-time or freelance role and, in the case of the latter, give an indication of your daily fee.

Applications should be sent to peter@sinfoniacymru.co.uk by no later than **Monday 20 April.**

**Codwr Arian profiadol, cyflogai rhan-amser neu gontract ar eich liwt eich hun**

Mae Sinfonia Cymru yn unigryw yn y sector cerddoriaeth. Rydym ni'n gerddorfa 'iau na 30 oed', sydd wedi ymroi i gefnogi gyrfaoedd cynnar cerddorion ifanc proffesiynol rhagorol. Trwy hyn, rydym yn darparu profiadau cerddorol o ansawdd eithriadol i gynulleidfaoedd ledled Cymru a thu hwnt.

Weithiau, rydym ni'n gerddorfa yn yr ystyr draddodiadol - yn amrywio o ensemble llinynnol i raddfa symffoni lawn; bryd arall, rydym yn gweithio gyda grwpiau llai o chwaraewyr i gyflwyno perfformiadau personol mewn amrywiaeth o arddulliau. Mae ein gwaith craidd yn cynnwys rhaglenni cerddorfaol siambr, cyngherddau cerddoriaeth siambr, cerddoriaeth gyfoes flaengar, prosiectau traws-genre, a phrosiectau ar gyfer a chydag ysgolion.

A ninnau'n barod i herio'r drefn bresennol, rydym yn rhoi cyfle i gerddorion ddatblygu ystod eang o sgiliau ac yn sicrhau bod ein chwaraewyr yn ganolog i'n rhaglennu creadigol. Heddiw, mae angen set ehangach o lawer o sgiliau ar gerddorion ac ymagwedd fwy agored at greu cerddoriaeth na chenedlaethau blaenorol, ac rydym yn helpu ein chwaraewyr i ddatblygu hyn. Ein nod yw meithrin cerddorion a hyfforddwyd yn glasurol sy'n eithriadol o ddawnus, yn chwilfrydig yn artistig, yn heriol, yn agored ac yn ennyn brwdfrydedd, ac a ddaw'n esiamplau da i chwaraewyr ifanc eraill.

Mae uchafbwyntiau nodedig diweddar ein rhaglen yn cynnwys dau ddarllediad ar BBC Radio 3, taith gyngerdd o Gymru gyda Sheku Kanneh-Mason, perfformiad o Tosca yn Abu Dhabi gyda Bryn Terfel, taith a recordiad gyda'r pianydd jazz, Gwilym Simcock a'r gantores enaid/ffync Kizzy Crawford, a thaith gyda'r band cerddoriaeth y byd, Kabantu.

**Y rôl**

Mae codi arian yn rhan gynyddol bwysig o'n model busnes. Er mwyn parhau i weithredu ar ein lefel bresennol, mae angen i ni godi £87,000 bob blwyddyn, a disgwylir i'r targedau gynyddu'n raddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Y targed presennol a gyllidebwyd yw £6,000 gan Gyfeillion a Noddwyr; £6,000 o roddion a chynllun rhoddion unigol penodol newydd; a £75,000 gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar ymestyn y llinell amser ar gyfer codi arian, gyda'r nod o gynyddu nifer y trefniadau aml-flwyddyn, yn enwedig gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau. Mae'r strategaeth hon wedi bod yn llwyddiannus, gydag ymrwymiad dwy flynedd gan Sefydliad Foyle, a threfniadau tair blynedd gyda Colwinston a Garfield Weston. Ochr yn ochr â'r perthnasoedd allweddol hyn, rydym wedi cyflawni llif cyson o grantiau unigol llai o faint, sydd yr un mor bwysig i'n cymysgedd codi arian.

Cyflawnwyd hyn yn bennaf trwy'r Prif Weithredwr gyda chymorth asiantaeth. Credwn bellach mai dyma'r adeg iawn i gael codwr arian penodol yn y tîm, yn gweithio ar ei liwt ei hun neu

fel cyflogai rhan-amser. Disgwyliwn gynnig contract o rhwng 2 a 3 diwrnod yr wythnos, yn seiliedig ar gyflog cyfwerth ag amser llawn o oddeutu £30,000.

**Yr unigolyn**

Bydd yr unigolyn delfrydol yn rhywun sydd â phrofiad helaeth o godi arian, gydag arbenigedd penodol mewn creu cynigion ar gyfer Ymddiriedolaethau a Sefydliadau; rhywun sy'n gallu mynd ati ar garlam a chreu ceisiadau darbwyllol sy'n adlewyrchiad cywir o'r gwaith cyffrous rydym ni'n ei greu. Byddai profiad o feysydd eraill o godi arian yn ddefnyddiol hefyd. Mae sgiliau cyflwyno ysgrifenedig datblygedig yn hanfodol ac, yn ddelfrydol, byddwch hefyd yn gyfarwydd â'r sector cerddoriaeth glasurol ac yn ei ddeall. Byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn ddefnyddiol ond nid yw'n ofyniad hanfodol ar gyfer y rôl hon.

**Swydd ddisgrifiad amlinellol**

<u>Cyffredinol</u>

- Ymgysylltu â thîm Sinfonia i gael dealltwriaeth lawn o'n gwaith a'i werth i gerddorion, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr
- Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r Prif Weithredwr i roi diweddariadau ar gynnydd, trafod a datblygu syniadau, a chael cymeradwyaeth derfynol ar gyfer cynigion mawr

<u>Ymddiriedolaethau a Sefydliadau</u>

- Ymchwilio i restr darged o'r rhai sy'n cyfateb orau i genhadaeth a rhaglen gweithgareddau Sinfonia Cymru
- Creu cynigion darbwyllol ar gyfer cyllid o ystod o ffynonellau, gan gynnwys y rhai a allai ariannu ar sail aml-flwyddyn, yn ogystal â'r rhai a allai roi grantiau unigol llai o faint
- Cadw cofnod manwl o restrau ymchwil, ymholiadau, cynigion a chanlyniadau, mewn fformat y gellir ei rannu'n rhwydd (Airtable, yn ddelfrydol). Defnyddio hyn i ddarparu adroddiadau syml i ddangos cynnydd yn erbyn targedau
- Cwblhau adroddiadau allanol mewn modd amserol, fel sy'n ofynnol gan gyllidwyr
- Darparu unrhyw ofynion cyllido i dîm Sinfonia Cymru, fel defnyddio logos, cydnabyddiaeth ac ati

<u>Unigolion</u>

- Datblygu system effeithiol ar gyfer olrhain rhoddion unigol a rhoi gwybod i roddwyr pan fydd angen adnewyddu
- Creu rhaglen gyfathrebu ar gyfer aros mewn cysylltiad â rhoddwyr unigol
- Gweithio gydag ymgynghorwyr gwirfoddol i wireddu cyfres o ddigwyddiadau i ddatblygu syndicâd o unigolion gwerth net uchel i gefnogi Sinfonia Cymru wrth symud ymlaen

<u>Busnes</u>

- Creu syniadau a chynigion ar gyfer datblygu nawdd gan fusnes, lle y bo'n briodol

**Tîm Sinfonia Cymru**

Mae'r tîm presennol yn cynnwys: Prif Weithredwr, Rheolwr Cyffredinol (rhan-amser, ar fin mynd ar gyfnod mamolaeth), Rheolwr Cerddorfa, Cynorthwy-ydd Marchnata, Ymgynghorydd Marchnata ar ei Liwt ei Hun.

**Sut i wneud cais**

Dylai ceisiadau gynnwys CV cyfredol a llythyr cais nad yw'n fwy na 4 tudalen A4. Yn y llythyr eglurhaol hwn, rhowch wybod i ni am eich sgiliau a'ch profiad perthnasol, beth rydych yn credu y byddech yn ei gyfrannu at dîm Sinfonia Cymru, a sut byddech yn ein helpu i gyrraedd ein targedau codi arian yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Nodwch p'un a oes gennych ddiddordeb mewn rôl ran-amser neu ar eich liwt eich hun ac, yn achos yr olaf, rhowch syniad o'ch ffi ddyddiol.

Dylid anfon ceisiadau at peter@sinfoniacymru.co.uk erbyn **dydd Llun 20 Ebrill** fan bellaf.